

Trefniant Polisi		
Cyfeirnod Adnabod	Rhif y Fersiwn	Dyddiad
CE04	1.0	



**POLISI TAI WALES & WEST  
POLISI CYFRANDDALWYR**

MANYLION RHEOLI DOGFEN	
<b>Perchennog y Polisi</b>	<i>Bwrdd Grŵp WWH</i>
<b>Dyddiad Llunio'r Polisi</b>	Mehefin 2015
<b>Cymeradwywyd gan</b>	<i>Bwrdd Grŵp WWH</i>
<b>Dyddiad Adolygu Nesaf</b>	Hydref 2022
<b>Adolygwyd gan</b>	<i>Rheolwr Llywodraethu</i>
<b>Dyddiad y'i Diweddarwyd y tro Diwethaf</b>	Hydref 2020
Nid yw'r Polisi hwn yn berthnasol i Wasanaethau Cynnal a Chadw Cambria, Mentrau Castell, Cartrefi Castell neu Ddatblygiadau Enfys	

### 1.1 Cyflwyniad a Diben

Mae gofyn i'r Bwrdd gael polisi ac amcanion er mwyn derbyn cyfranddalwyr newydd. Dim ond y Bwrdd all dderbyn unrhyw gyfranddalwyr newydd yn unol â pholisïau o'r fath.

Rhaid i bob cyfranddaliwr gytuno bod yn rhwym i'r rhwymedigaethau arnynt fel y nodir yn rheolau'r Gymdeithas. Wrth weithredu fel cyfranddalwyr, rhaid iddynt weithredu er budd y Gymdeithas bob amser, ac er budd y gymuned, fel gwarcheidwaid amcanion y Gymdeithas.

### 1.2 Datganiad Polisi:

Amcan y polisi yw annog unigolion neu unigolion fel cynrychiolwyr cyrff corfforaethol neu anghorfforedig i wneud cais i fod yn gyfranddalwyr. Etholir y Bwrdd o blith y cyfranddalwyr hyn, felly mae'n bwysig bod y rhain yn galluogi i rwymedigaethau'r Gymdeithas gael eu cyflawni. Rhaid i'r Bwrdd:-

- gynnwys pobl sy'n meddu ar gydbwysedd o ran y sgiliau perthnasol
- bod yn amrywiol, gan adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gan y Gymdeithas
- ceisio sicrhau cydbwysedd o ran rhyw, oedran, grwpiau lleiafrifol fel BAME a phobl sydd ag anabledd
- bod yn rhydd rhag dylanwad gormodol gan unrhyw gorff arall
- bod wedi cael hyfforddiant digonol
- bod yn wybodus am ac wedi ymrwymo i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu

- cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn wir

Felly, mae'r polisi hwn yn adlewyrchu'r rhwymedigaethau hyn.

### **1.3 Dogfennau a Deddfwriaeth Gysylltiedig:**

Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014

## **2.0 Prif Gorff**

### **2.1 Cyfranddalwyr**

Mae cyfranddaliwr y Gymdeithas yn unigolyn neu'n gorff y cofnodir eu henw a'u cyfeiriad yng nghofrestr y cyfranddalwyr.

Mae aelodaeth cyfranddalwyr yn cynnwys tri math o aelod:-

- Unigolion sy'n dymuno ymuno â'r Gymdeithas oherwydd bod ganddynt ddi-ddordeb penodol mewn tai cymdeithasol, sy'n dymuno helpu mewn rhyw ffordd trwy ddefnyddio eu sgiliau personol penodol, ac y mae ganddynt y potensial i fod yn aelodau Bwrdd.
- Enwebedigion cyrff anghorfforedig. Yn yr achos hwn, rhaid i'r cais am aelodaeth nodi enw a chyfeiriad yr unigolyn a enwebir fel y cynrychiolydd.
- Cyrff corfforaethol.

Ni fydd gan unrhyw gyfranddaliwr mwy nag un cyfranddaliad, a bydd pob cyfranddaliad yn cael un pleidlais yn unig.

### **2.2 Gwaharddiadau rhag bod yn gyfranddalwyr**

Ni chaiff y canlynol fod yn gyfranddalwyr:

- plentyn dan oed – a bennir gan y Bwrdd o bryd i'w gilydd;
- unigolyn sydd wedi cael eu gwahardd fel cyfranddaliwr, oni bai y caiff hyn ei awdurdodi gan benderfyniad a wneir mewn cyfarfod cyffredinol;
- un o gyflogeion y gymdeithas neu unrhyw aelod arall o'r grŵp;
- unigolyn sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestr gan y bwrdd yn unol â rheol D5;
- unigolyn y mae ymarferwr meddygol cofrestredig sy'n trin yr unigolyn hwnnw yn mynegi barn ysgrifenedig sy'n datgan bod yr unigolyn wedi mynd yn analluog mewn ffordd gorfforol neu feddyliol i weithredu fel aelod o'r bwrdd ac fe allent barhau fel hynny am dros dri mis;
- unigolyn y mae llys yn gwneud gorchymyn, oherwydd eu hiechyd meddwl, sy'n atal yr unigolyn hwnnw yn llwyr neu'n rhannol rhag arfer unrhyw bwerau neu hawliau y byddai gan yr unigolyn hwnnw fel arall; neu

Dim ond pan ddarllenir hon ar wefan/mewnwyd Tai Wales & West y bydd yn ddogfen reoledig. Os bydd gofyn cael copi wedi'i argraffu, mae'r defnyddiwr yn gyfrifol am sicrhau bod y diwygiad cywir yn cael ei ddefnyddio.

- unigolyn sydd wedi cael eu datgymhwysu rhag cyflawni rôl Cyfarwyddwr cwmni am unrhyw reswm, neu y maent wedi cael eu colfarnu am gyflawni trosedd dditiadwy.

Yn ogystal, bydd y Bwrdd yn ystyried potensial gwrthdaro rhwng buddiannau wrth ystyried ceisiadau (e.e. aelodaeth neu swyddog mewn cymdeithas dai arall).

## **2.3 Ceisiadau**

2.3.1 Rhaid cyflwyno cais ysgrifenedig i fod yn gyfranddaliwr i Brif Weithredwr y Grŵp, gan nodi'r rhesymau dros wneud y cais a'r cymwysterau addas ar gyfer sicrhau aelodaeth, gan gynnwys y swm o bunt (a ddychwelir iddynt os na chaiff y cais ei gymeradwyo).

2.3.2 Ystyrir pob cais yn ystod cyfarfod Bwrdd cynnar. Efallai y bydd angen i rywun sy'n gwneud cais i fod yn aelod gael eu cyfweled gan y Cadeirydd (neu aelod dirprwyedig arall) a Phrif Weithredwr y Grŵp. Penderfynir hyn ystod y cyfarfod Bwrdd pan ystyrir y cais.

2.3.3 Wrth ystyried y cais, bydd y Bwrdd yn ystyried y sgiliau, y rhinweddau a'r profiad y bydd yr ymgeisydd yn eu cynnig i'r Gymdeithas.

Yn ogystal, bydd y Bwrdd yn ystyried potensial gwrthdaro rhwng buddiannau wrth ystyried ceisiadau e.e. aelodaeth neu swyddog mewn cymdeithas dai arall.

2.3.4 Mae gan y Bwrdd bŵer disgrisiwn llwyr wrth benderfynu a ddylid derbyn neu wrthod cais.

2.3.5 Hysbysir pob ymgeisydd o ganlyniad eu cais gan yr ysgrifennydd cyn pen 10 diwrnod gwaith o'i ystyried. Mewn achosion pan wrthodir y cais, nodir y rhesymau dros ei wrthod ac ni chaniateir i'r ymgeisydd ailymgeisio am gyfnod o ddeuddeg mis.

2.3.6 Os caiff ei gymeradwyo, bydd yr Ysgrifennydd yn cofnodi enw'r ymgeisydd a'r manylion angenrheidiol eraill yng nghofrestr yr aelodau. Rhoddir un cyfranddaliad yn y Gymdeithas a chopi o reolau'r Gymdeithas i'r ymgeisydd.

## **2.4 Meini prawf i'w hystyried**

2.4.1 Wrth ystyried cais, bydd y Bwrdd yn ystyried y canlynol:-

- Y sgiliau, y rhinweddau a'r profiad y bydd yr ymgeisydd yn eu dwyn i'r Gymdeithas (gan adlewyrchu'r angen i'r Bwrdd feddu ar gydbwysedd o sgiliau priodol gan gynnwys (ond nid y rhain yn unig), sgiliau cyfreithiol, busnes, ariannol, technegol, gwaith cymunedol, profiad o'r sector tai, profiad perthnasol o'r sector cyhoeddus, adnoddau dynol a llywodraethu);
- Yr angen i'r ymgeisydd ddangos empathi gyda thai cymdeithasol; a'r

Dim ond pan ddarllenir hon ar wefan/mewnwyd Tai Wales & West y bydd yn ddogfen reoledig. Os bydd gofyn cael copi wedi'i argraffu, mae'r defnyddiwr yn gyfrifol am sicrhau bod y diwygiad cywir yn cael ei ddefnyddio.

- Gofyniad bod gan yr ymgeisydd y potensial i fod yn aelod Bwrdd.

2.4.2 Dylai unrhyw ymgeisydd fod yn gallu cyflawni'r holl amcanion uchod er mwyn bod yn gymwys i gael eu derbyn fel cyfranddaliwr.

2.4.3 Yn ogystal, bydd y Bwrdd yn ystyried:

- amrywiaeth a'r angen i sicrhau cydbwysedd o ran rhyw, oedran, grwpiau lleiafrifol fel BAME a phobl anabl; a'r angen i adlewyrchu'r cymunedau y mae'r Gymdeithas yn gweithredu ynddynt.

## 2.5 Terfynu cyfranddaliad

2.5.1 Ni fydd cyfranddaliwr yn gyfranddaliwr mwyach yn awtomatig:-

- os byddant yn marw;
- os byddant yn cael eu diarddel gan benderfyniad a wneir mewn cyfarfod cyffredinol arbennig;
- os byddant yn tynnu'n ôl o'r Gymdeithas trwy roi un mis o rybudd i'r ysgrifennydd;
- os na fyddant yn cymryd rhan yn nac yn anfon eu hymddiheuriadau ymlaen llaw ar gyfer dau gyfarfod cyffredinol blynyddol y Gymdeithas o'r bron;
- yn achos corff corfforedig, nid yw'n gorff corfforedig mwyach;
- yn achos enwebai corff anghorfforedig, os byddant yn trosglwyddo eu cyfranddaliad i enwebai arall y corff hwnnw;
- os na fyddant yn gyfranddaliwr mwyach dan adran 4.1 uchod;
- os bydd y Gymdeithas yn cyflwyno hysbysiad ar y cyfranddaliwr, yn gofyn iddynt ddynodi (o fewn cyfnod penodedig o 3 mis) a ydynt yn dymuno parhau i fod yn gyfranddaliwr, ac ni fyddant yn ateb o fewn y cyfnod hwnnw;
- os bydd y Gymdeithas wedi sicrhau gorchymyn llys cymwys neu dribiwnlys yn eu herbyn am adfer arian sy'n ddyledus ganddynt i'r Gymdeithas ar yr amod, os caiff y gorchymyn ei atal neu os bydd yn orchymyn er mwyn talu mewn rhandaliadau, ni fyddant yn aelod sy'n gyfranddaliwr mwyach pan fyddant yn methu bodloni amodau'r gorchymyn; neu
- os ydynt yn breswlydd ac yn torri amodau eu cytundeb tenantiaeth neu eu prydles mewn ffordd berthnasol neu ddifrifol ac ni fyddant yn llwyddo i ddatrys y sefyllfa hon o fewn amserlen resymol, fel y cytunwyd gyda'r Gymdeithas neu os byddant yn torri gorchymyn adennill meddiant ataliedig, neu os byddant yn destun unrhyw rai o'r mathau canlynol o orchymyn llys: gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwaharddeb ymddygiad gwrthgymdeithasol, tenantiaeth isradd, neu orchymyn cau neu unrhyw orchymyn barnwrol arall (waeth sut y caiff ei enwi) y mae'n cael effaith gyfatebol.

2.5.2 Dim ond trwy benderfyniad a wneir mewn cyfarfod cyffredinol arbennig a elwir gan y bwrdd y bydd modd diarddel cyfranddaliwr.

## 3.0 Cyfrifoldebau:

*Datganiad/au byr sy'n nodi camau/cyfrifoldebau a safbwynt/iau cyfrifol er mwyn sicrhau bod y polisi:*

Dim ond pan ddarllenir hon ar wefan/mewn rwyd Tai Wales & West y bydd yn ddogfen reoledig. Os bydd gofyn cael copi wedi'i argraffu, mae'r defnyddiwr yn gyfrifol am sicrhau bod y diwygiad cywir yn cael ei ddefnyddio.

- *Yn cyd-fynd â deddfwriaeth berthnasol, polisi LIC a gwerthoedd ac egwyddorion gweithredol WWH*
- *Yn cael ei weithredu a'i fonitro – gan adlewyrchu'r amgylchedd polisi sy'n newid a'r materion sy'n dod i'r amlwg a nodwyd*
- *Yn cael ei adolygu er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd parhaus – gan gyflawni diben ac mae'n gyfredol*
- *Yn nodi gofynion adrodd a swydd/i cyfrifol*

#### **4.0 Effaith:**

Cytunwyd ar y polisi cyfranddalwyr er mwyn sicrhau cymaint o amrywiaeth ag y bo modd o ran yr ymgeiswyr am gyfranddaliadau.

Dim ond pan ddarllenir hon ar wefan/mewn rwyd Tai Wales & West y bydd yn ddogfen reoledig. Os bydd gofyn cael copi wedi'i argraffu, mae'r defnyddiwr yn gyfrifol am sicrhau bod y diwygiad cywir yn cael ei ddefnyddio.